

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn ar Nos Lun 20fed o Chwefror, 2017 am 7.30 y.h.

Presennol:

Cyng. Sh Edwards (Cadeirydd)

Cyng. T.A.G. Davies

Cyng. H.M. Evans

Cyng. J. George

Cyng. E. Lewis

Cyng. C. Lloyd-Morgan

Cyng. J.J. Powell

Cyng. L.L. Owen

Cyng. R. Jones

Ymddiheuriadau

Cyng. A. Evans, Cyng. B. Jenkins,

Adleolwyd y cyfarfod i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn o Neuadd Lisburne ar fyr rybudd gan fod Clwb Ffermwyr Ifanc Trisant am ddefnyddio'r Neuadd ar gyfer ymarferion cystadleuaeth sirol.

Materion Personol

Cydymdeimlwyd gyda Derek Baskerville a'r Teulu (cyn Clerc y Cyngor Bro) ar farwolaeth ei Wraig Eirionedd yn ddiweddar

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 9fed Ionawr, 2017 fel cofnod cywir. Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. John Powell.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Asesiad Risg ac Asedau

Dim materion yn codi.

Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn

Sefyllfa wedi gwella ond cadw ar yr agenda i gadw llygad.

Sefyllfa Band Llydan o fewn yr Ardal

Er y gwahoddwyd Mr. Martin Jones, Rheolwr Prosiect Cymru gyda BT i'r cyfarfod y noson honno nid oedd yn gyfleus iddo fynychu. Disgwylir dyddiadau posibl wrtho ar gyfer cynnal cyfarfod i drafod sefyllfa Band llydan o fewn yr Ardal.

Adroddwyd fod sefyllfa gwasanaeth we mor wael yn Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn bod y Cyngor Sir wedi gwneud trefniadau i osod system lloeren yn yr Ysgol er mwyn medru derbyn gwasanaeth gweithredol.

Materion angen sylw'r Cyngor Sir Dŵr ger y Gors ar y ffordd C1052

Derbyniwyd diweddariad wrth Gyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau bod y cyllid ar gyfer cwblhau'r gwaith yn parhau i fod ar gael ond y byddid yn tynnu at hwyrach yn y flwyddyn ariannol nesaf cyn y medrir dechrau ar y gwaith.

Gweithred: Cadw ar yr agenda i ddilyn lan o bryd i'w gilydd.

Safle We

Y safle we yn weithredol yn awr.

Rhiw Dolgwybedig

Dim manylion pellach er i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir yn ddiweddar am ddiweddariad.

Gweithred: Cadw ar yr agenda gyda'r Clerc i ddilyn lan am ymateb.

Maes y Felin, Llanafan

Deallwyd mewn gohebiaeth wrth June Blake o Dai Ceredigion mai dim ond un cerbyd sydd bellach yn achosi problem, bod y cerbydau eraill wedi eu symud o'r safle. Nodir fod trefniadau ar y gweill gan Tai Ceredigion i sicrhau bod perchennog y cerbyd yma hefyd yn gwaredu'r cerbyd nad sydd mewn defnydd gan ei fod wedi torri amodau tenantiaeth.

Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan

Danfônwyd gwahoddiad i dri cwmni i gyflwyno tendr ar gyfer cyflawni gwaith o ddodi Golau Stryd yn Llanafan. Allan o'r tri dim ond un tendr a dderbyniwyd yn ôl, gydag un cwmni yn cadarnhau nad oeddent am gyflwyno tendr a ni chafwyd ymateb gan y trydydd cwmni. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Chwmni Scottish Power am bris i gyflawni pŵer i'r polyn golau ond hyd yn hyn ni dderbyniwyd amcanbris. Nodir hefyd bydd angen derbyn nodyn ysgrifenedig wrth Gyngor Sir Ceredigion, fel perchennogion tir, yn cadarnhau bod y Cyngor Sir yn hapus i'r Cyngor Bro barhau i gyflwni'r gwaith. Cytunwyd i barhau gyda'r drafodaeth yn y Cyfarfod nesaf.

Draeniau o'r Terrace, Cnwch Coch i Rhydyfagwyr.

Er y bu glanhawr ffordd yn glanhau'r ffordd yn ddiweddar ni wnaed dim i lanhau'r borfa o'r draeniau ac mae'r sefyllfa yn parhau i fod yn broblem o ddŵr glaw yn llifo ar ymyl y ffordd yn hytrach na draenio i fwrdd.

Gwrych i'w torri

Er nad yw coed y gwrych sy'n ymestyn allan i'r ffordd ger Cwmnewidion Isaf wedi eu torri cytunwyd i ohirio trafodaeth am y tro oherwydd amgylchiadau anffodus a ddigwyddodd yno yn ddiweddar.

Arogl Carthffosiaeth yn Llanafan

Ni dderbyniwyd ymateb o'r Cyngor Sir at y broblem o arogl cryf o garthffosiaeth ym Mhentref Llanafan ar ddydd Gŵyl San Steffan.

Gweithred: Y Clerc i ddilyn hyn lan gydag Adran yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ceredigion.

Ymgynghori ar amryw o newidiadau arfaethedig i'r terfynau cyflymder ar Ffordd Sirol yng Ngheredigion

Cyfeiriwyd fod polion ar gyfer yr arwyddion 20 m.y.a. mewn lle ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn. Derbyniodd y Cyng. Rowland Jones ymateb gan swyddog Cyngor Sir Ceredigion yn nodi er y diwygiwyd yr argymhellion i beidio a chynnwys ffordd breifat wrth ymyl Yr Eglwys fel rhan o'r cynlluniau yn dilyn sylwadau'r Cyngor Bro, ni fedrwyd a newid yr argymhellion o newid lleoliad i ben y rhiw ger Tŷ'r Ysgol gan nad oedd yn cydfynd gydag anghenion dechrau a gorffen cyflymder gyrru. Y cyflymder o 20 m.y.a. i fod yn weithredol yn Llanfihangel-y-Creuddyn ganol mis Chwefror. Byddid yn ail-edrych ar leoliadau ym mhen dwy flynedd pan trefnir adolygiad nesaf o'r lleoliadau.

Draeniau angen sylw o fewn yr ardal.

Nifer o ddraeniau yn yr ardal angen ei gwaghau.

Grid wedi dod allan o'r Culvart yng Ngwm Rhydyfelin gan adael twll yn y ffordd. Er i Gyngor Sir Ceredigion drefnu i jetter ymweld a'r lleoliad i waghau'r culvart a'r draeniau nid yw'r sefyllfa wedi gwella. Mae'r culvart wedi cwmpo i fewn ac angen ei hadnewyddu. Y Clerc i gysylltu yn rhagor gyda'r Cyngor Sir i ofyn iddynt gyflawni gwaith ar frys ar y Culvart.

Drain wedi blocio yn agos at benlon Sarnau.

Rhai o'r tyllau mawr yn y ffordd ar Rhiw Hari, Llanfihangel-y-Creuddyn wedi llenwi ond erbyn nawr mae yna dyllau eraill wedi ymddangos yn gwneud y ffordd yn anwastad, hefyd tyllau dipyn eu maint yn y ffordd wrth ymyl Blaenmagwr ac wrth ymyl Brynmagwr.

Arwyddion Ffordd

Yr angen i ail-osod arwydd cyfeirio at Bentref Llanafan ger Erw Lon uwchben y Pentref. Dim wedi gwneud am yr arwydd ac erbyn nawr mae'r arwydd wedi diflannu.

Gweithred: y Clerc i ddilyn lan.

Arwydd Pentref Cnwch Coch

Contractwr gyda BT wedi cwblhau'r gwaith o symud polyn BT fel bod arwydd pentref Cnwch Coch yn hollol weledol unwaith eto.

Ffordd yn Erydu

Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth o'r Cyngor Sir am sefyllfa'r Ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant sy'n parhau i erydu yn ddifrifol wrth ymyl Cwmagwr.

Gweithred: Dilyn lan ar y sefyllfa.

Bont ger Glanyrafon, Llanfihangel-y-Creuddyn

Dim wedi gwneud i'r cwrp sy'n rhydd ar y bont sydd angen sylw.

Gweithred: Dilyn lan ar y sefyllfa.

Cario Cinio Ysgol o Ysgol Llanilar i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn

Ni dderbyniwyd ymateb i'r ymholiad pe na fyddai'r cinio yn medru cyrraedd Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn oherwydd cyflwr y ffordd beth fyddai'r sefyllfa o ran cinio i'r disgyblion.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir Ceredigion.

Coed Ffordd Uchaf Llanafan

Adroddodd Cyng. Lewis Owen ei fod wedi cynnal cyfarfod safle gyda Rheolwr IBERS a bod hwnnw yn ei dro mewn cysylltiad gydag Adran Ystadau Prifysgol Aberystwyth am berchenogaeth y coed ond cytunwyd yn y cyfarfod safle bod angen gweithredu brys cyn i'r coed gwympto mewn gwynt garw a gwneud niwed i dai cyfagos. Hyd yn hyn ni dderbyniwyd gwybodaeth pellach o'r Brifysgol. Y Clerc a'r Cyng. Owen i barhau i gysylltu gyda swyddogion y Brifysgol.

Materion Cyllidol

Ar 30ain o Ionawr, 2017 roedd gan y Cyngor Bro mewn llaw £7,419.36 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a £1,986.41 yn y Cyfrif Cadw.

Cyflwynodd y Clerc mantolen cyllideb yn nodi'r gwariant am y flwyddyn ac amcangyfrif o'r gwariant am weddill y flwyddyn ariannol. Derbyniwyd y fantolen.

Derbyniwyd anfoneb wrth Shaw & Sons am £76.76 (£63.95 a £12.79 TAW) am lyfr cofnodi cyfrifon y Cyngor Bro. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. H. Evans ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.

Cyflog a Chostau'r Clerc

Cyflwynodd y Clerc ei chostau o £48.84 am y flwyddyn. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. J. Powell.

Cytunwyd hefyd i dalu £1,500 cyflog y Clerc fel a nodir:

£1,200 i Lis Williams. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. E. Lewis ac eiliwyd gan Cyng. H. Evans; a

£300 i'r Gwasanaeth Cyllid a Thollau am daliad 'Thalu wrth Ennill y Clerc.

Cynigiwyd y taliad hwn gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.

GOHEBIAETH

Ffyrrdd yn cau dros dro

Adroddwyd ar yr isod:

C1055 Llanfihangel-y-Creuddyn 6 Mawrth I 10fed Mawrth – Gwaith dycio.

C1022 Rhes newydd/New Row 1af Ebrill – 2 Ebrill – Gwaith ceblo i adfer gwasanaeth.

Un Llais Cymru

Ymholiad gan Un Llais Cymru a fyddai'r Cyngor Bro am ymaelodi gyda'r sefydliad. Derbyniwyd y llythyr a chytunwyd na fyddai'r Cyngor Bro yn ymaelodi.

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Gohebiaeth gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn amgau copi o lythyr a ddanfonwyd at Brif Weithredwraig Cyngor Sir Ceredigion yn gwahodd sylwadau i ymgynghoriad ar Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar y 26ain o Ionawr ac yn cau ar y 19eg o Ebrill 2017.

Derbyniwyd ymateb wrth Uned Corfforaeth Cludiant Teithwyr i ymholiad ym mis Rhagfyr at fws ysgol yn bacio allan i'r ffordd fawr o fynedfa Llanafan ger Dolgwybedig yn ddyddiol sy'n achosi perygl i'r cyhoedd. Yr ymateb yn cyfeirio er bod y bws wedi gweithredu hyn am ychydig ddyddiau ar ddechrau contract nid yw hyn yn digwydd bellach gan fod yn rhy beryglus i facio allan i'r ffordd fawr.

UNRHYW FATER ARALL

Cyngyrair Cymunedau Cymraeg

Cyfeiriodd Cyng. Ceridwen Lloyd-Morgan y byddai'n mynychu cyfarfod o Gyngyrair Cymunedau Cymraeg yn Aberystwyth ar y 4ydd o Fawrth.

Cerbydau yn parcio yn Y Gors

Derbyniwyd nifer o gwynion bod nifer o gerbydau a threiler yn parcio am ddyddiau lawer yn y man parcio ger yr hysbysfwrdd a'r mainc eistedd wrth ymadael â'r Gors i gyfeiriad Aberystwyth. Nid yn unig bod y cerbydau yma yn amharu ar eraill i ddefnyddio'r man parcio ond mae'n fater o iechyd a diogelwch gan yr amherir am welededd wrth ymuno gyda'r B4340 o eiddo cyfagos. Defnyddir y man aros yn rheolaidd gan deithwyr ar y B4340 gan fod yna gyswllt ffôn symudol addas wrth dynnu i fewn ond yn aml erbyn nawr nid oes cyfle i dynnu fewn gan fod cerbydau yn cael eu gadael yno.

Bydd cerbydau hefyd yn parcio ar y groesffordd o'r C1052 i'r B4340 gyferbyn a Thafarn y Gors sy'n amharu ar welededd wrth ymuno gyda'r B4340. Cerbydau hefyd yn parcio ar y ffordd fawr gyferbyn a'r groesffordd sy'n achosi problemau i deithwyr gan fod y ffordd yn gul yno.

Deallir fod y cerbydau yn ymwneud gyda dau unigolyn a sefydliad busnes o fewn yr ardal sy'n defnyddio'r lleoliadau ar gyfer cadw cerbydau.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion a'r Heddlu fel bod yn cysylltu gyda'r unigolion dan sylw i hysbysu na ddylid parcio cerbydau mewn mannau sy'n achosi perygl i eraill nac ychwaith berchenogi'r mannau parcio cyhoeddus o fewn Y Gors.

Rheiliau Pren

Adroddwyd bod rhai o'r rheiliau pren ar ochr y ffordd gyferbyn a Berllanber wedi torri a'r angen i gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion gan ofyn iddynt adnewyddu'r rheiliau pren.

Torri ar draws Cornel

Ger mynedfa i'r Castell ar y ffordd heibio Llannerch yr Oen mae cerbydau wedi dechrau teithio ar draws y llain las gan dorri ar draws y cornel ac achosi pridd a mwd ar draws y ffordd. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir gan ofyn am ddodi polyn ffordd yno cyn eith y sefyllfa'n waeth.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 3ydd o Ebrill, 2017 am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburne.